# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd** | **Fay Bowen** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 21 Hydref 2019 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 13.00 | 0300 200 6565 |
| | SeneddArchwilio@cynulliad.cymru |

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(13.00 - 13.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.15)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.15) (Tudalennau 1 - 7)

**2.1 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (3 Hydref 2019)**

**2.2 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion**

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion

**2.3 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Tlodi Tanwydd**

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Tlodi Tanwydd

**2.4 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

### 2.5 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Tueddiadau o ran gwariant cyhoeddus yng Nghymru rhwng 1999-00 a 2017-18

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru – Tueddiadau o ran gwariant cyhoeddus yng Nghymru rhwng 1999-00 a 2017-18

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2018-19:

(13.20 – 14.50) (Tudalennau 8 – 36)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-26-19 Papur 1 – Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Shan Morgan – Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Andrew Slade – Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru

Peter Ryland – Prif Weithredwr, WEFO

Gawain Evans – Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

David Richards – Cyfarwyddwr Moeseg a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

(14.50)

Eitem 5

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(14.50 – 15.15)

Eitem 2

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

03 Hydref 2019

Annwyl Nick

**Ymchwiliad i reoleiddio'r cymdeithasau tai - diweddariad**

Yr wyf yn falch o amgau diweddariad Llywodraeth Cymru o Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Ymchwiliad I Drefn Reoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru 2017.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

**Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru 2017**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r cynnydd diweddaraf ar yr argymhellion sy'n weddill. Er hwylustod y Pwyllgor, ar gyfer pob un o'r rhain, rydym wedi nodi'r argymhelliad, a ydym yn ei dderbyn, diweddariadau blaenorol a'r sefyllfa ddiweddaraf ym mis Medi 2019.

**Argymhelliad 2**
Ar ben hynny, er budd tryloywder rydym yn argymell y dylai Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, yn ei adroddiad blynyddol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, ystyried capasiti a sgiliau cyfredol y tîm rheoleiddio, a fydd, yn ysbryd cyd-reoleiddio yn galluogi rhanddeiliaid eraill i graffu ar allu Llywodraeth Cymru i reoleiddio.
**Derbyniwyd** – Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi ymateb i argymhellion yr adroddiad ar wahân. Mae'r Bwrdd wedi cadarnhau y bydd ei adroddiadau blynyddol, y disgwylir yr un nesaf yn haf 2018, yn cynnwys adran ar sgiliau ac adnoddau'r Tîm Rheoleiddiol.
**Diweddariad blaenorol** – Mae'r Bwrdd Rheoleiddiol yn datblygu dull newydd o lunio ei Adroddiad Blynyddol ac o ganlyniad caiff yr adroddiad ei ohirio tan hydref 2018.

**Diweddariad Medi 19 – Cwblhawyd**
Cyhoeddodd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ei adroddiad ym mis Mai 2019. Dolen yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/bwrdd-rheoleiddiol-cymru-adroddiad-ar-berfformiad.pdf

Roedd yr adroddiad yn hwyrach na'r disgwyl, gan fod y Bwrdd am ystyried y materion mewn modd cadarnach o lawer. Roedd y Bwrdd yn teimlo bod yr oedi'n gyfiawn er mwyn sicrhau bod adroddiad cynhwysfawr yn cael ei ddarparu. Mae'r adroddiad yn ystyried sgiliau ac adnoddau'r Tîm Rheoleiddiol ac yn cyflwyno sylwadau arnynt. Mae'r Bwrdd yn trafod yr hyn sy'n lleihad yn yr adnoddau o fewn ei fframwaith ac, yn sgil hynny, yn amlinellu'r heriau y mae'n eu gweld i gynnal hyd a lled gwaith y Rheoleiddiwr.

Ymatebodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i'r Bwrdd ar 12 Medi 2019, ac atodir copi o'r ymateb.

**Argymhelliad 3**
Dylai Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod yn her effeithiol i dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru. O ystyried natur sensitif rhai materion a drafodir gan y Bwrdd, roedd yn anodd i'r Pwyllgor benderfynu pa mor effeithiol y mae'r her honno wedi bod. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn ystyried sut y gellir bod yn fwy agored a thryloyw o ran y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd.
**Derbyniwyd** – Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi ymateb i argymhellion yr adroddiad ar wahân. Bydd y Bwrdd yn ystyried bod yn fwy agored a thryloyw eleni gyda'r bwriad o grynhoi meysydd her penodol yn ei adroddiad blynyddol, yn ogystal

â pharhau i gyhoeddi crynodebau, lle nad yw'r trafodaethau'n gyfrinachol, o'i gyfarfodydd fel Bwrdd sy'n cyfeirio at y ffordd y mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â'r tîm rheoleiddio ac yn ei herio.
**Diweddariad blaenorol** – Mae'r Bwrdd Rheoleiddiol yn datblygu dull newydd o lunio ei Adroddiad Blynyddol ac o ganlyniad caiff yr adroddiad ei ohirio tan hydref 2018.

**Diweddariad Medi 19** – **Cwblhawyd**
Mae Adran 1 o adroddiad y Bwrdd Rheoleiddiol (gweler argymhelliad 2) yn cyflwyno sylwadau ar berfformiad y Rheoleiddiwr a rôl y Bwrdd yng ngwaith y tîm rheoleiddio, gan gynnwys achosion difrifol ac ymyriadau rheoleiddio.

**Argymhelliad 4**
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer sicrhau bod setiau data clir a chymaradwy ar gael i gynorthwyo tenantiaid wrth benderfynu ar safbwynt a pholisïau eu Cymdeithas Dai, a herio hynny. Roedd yr hyn a wneir yn y maes hwn gan Reoleiddiwr Tai yr Alban wedi creu argraff arnom, a hoffem annog Llywodraeth Cymru i fynd ati yn yr un modd.
**Derbyniwyd** – Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r sector a rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig tenantiaid, er mwyn sicrhau bod data priodol ar gael erbyn mis Hydref 2018. Wrth i set ddata Cymru gael ei datblygu, byddwn yn sicrhau y caiff unrhyw beth perthnasol a ddysgir gan yr Alban ei ymgorffori. Gweler hefyd Argymhelliad 9.
**Diweddariad blaenorol** Mae'r rhyngwyneb defnyddwyr ar gyfer y set ddata arfaethedig wedi cael ei brofi'n ddiweddar gan banel bach o denantiaid. Roedd eu hymateb yn gadarnhaol ac mae gwaith i gadarnhau a chyhoeddi'r data bellach yn mynd rhagddo. Bydd data perfformiad cyhoeddedig ar gael i denantiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill ym mis Hydref 2018.

**Diweddariad Medi 19** – **Cwblhawyd**
Cyhoeddwyd y set ddata ym mis Hydref 2018.
https://llyw.cymru/cymharu-eich-cymdeithas-dai
Wrth ddatblygu'r set ddata, ymwelodd swyddogion â Rheoleiddiwr Tai yr Alban i drafod ei System Perfformiad Landlordiaid a gwnaethant gysylltu hefyd â TPAS Scotland, y corff sy'n cynrychioli tenantiaid, i drafod sut roedd tenantiaid yn defnyddio ac yn barnu'r system. Mae'r system yng Nghymru yn galluogi pobl i gymharu data yn ôl naw dangosydd boddhad tenantiaid, saith dangosydd costau ac effeithlonrwydd landlordiaid, nifer y cartrefi sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru yn ogystal â rhoi rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol megis nifer y cartrefi, nifer y staff a gyflogir, trosiant a'r gwarged/diffyg a gynhyrchir gan bob LCC. Mae'r tudalennau wedi cael eu gweld dros 2,500 o weithiau ers eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 9**
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi dulliau ar waith ar gyfer adrodd a meincnodi gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch pa mor dda y mae'r sector yn perfformio. Rydym yn argymell hefyd y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael ar wefan ganolog, ynghyd â setiau data eraill fel y nodir yn Argymhelliad 4.

**Derbyniwyd** – Bydd meincnodi perfformiad sector yn rhan o'r gwaith cydweithredol a nodir yn yr ymateb i argymhelliad 4. Rydym yn bwriadu i'r data fod ar gael drwy un cyfrwng, gwefan Llywodraeth Cymru o bosibl.
**Diweddariad** – Gweler Argymhelliad 4. Yn ogystal, bydd ail gyfnod o waith yn dechrau yn hydref 2018. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys tenantiaid, er mwyn datblygu cyfres fwy cadarn o ddata ar berfformiad, cyfrwng cyhoeddi a threfniadau i gefnogi'r broses o ddefnyddio'r data yn effeithiol.

**Diweddariad Medi 19** – **Cwblhawyd**
Cyhoeddwyd y set ddata hon ym mis Hydref 2018.
https://llyw.cymru/cymharu-eich-cymdeithas-dai
Mae trafodaethau wedi dechrau gyda TPAS Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru ynghylch ail gyfnod y gwaith. Mae TPAS Cymru wedi cytuno i ddefnyddio'r sesiynau tenantiaid sydd ar ddod i weld pa wybodaeth arall yr hoffai tenantiaid allu cael gafael arni, ar gyfer beth y byddent yn ei defnyddio a'r ffordd yr hoffent gael gafael arni. Bydd yr adborth hwnnw'n ategu'r broses o ddatblygu set ddata ddiwygiedig. Mae'r tudalennau wedi cael eu gweld dros 2,500 o weithiau ers eu cyhoeddi.

**Julie James AC**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P-JJ-2996-19

12 Medi 2019

Annwyl Aelod o Fwrdd Rheoleiddiol Cymru,

Diolch i chi am yr adroddiad blynyddol, a oedd yn destun trafodaeth rhyngof i a'ch Cadeirydd bryd hynny, sef Helen White, a Dr Bob Smith ar 20 Mai 2019. Roedd yr adroddiad a'n trafodaeth ganlyniadol yn ddefnyddiol ac yn gadarnhaol.

Byddwch wedi gweld fy mod wedi cyhoeddi safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy ac, yn sgil hynny, rwy'n falch o ymateb i'ch adroddiad yn awr.

Mae llywodraethu da, effeithiol yn allweddol i sefydliadau cadarn a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Yn yr un modd, mae rheoleiddio cryf, tryloyw a chymesur yn hollbwysig i sicrhau bod pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn rhoi trefniadau llywodraethu cyson o ansawdd uchel ar waith ac yn eu cynnal. Mae trefniadau Llywodraethu da a gefnogir gan drefniadau rheoleiddio cryf yn diogelu tenantiaid a buddsoddiad cyhoeddus ac yn helpu'r sector i sicrhau bod gan bobl yng Nghymru le o ansawdd da i'w alw'n gartref.

Gan gadw hynny mewn cof, croesewais eich ystyriaeth o effeithiolrwydd y model rheoleiddio presennol, gyda'i ffocws ar reoleiddio ar y cyd, sicrwydd a gwelliant, wrth helpu i gefnogi gwasanaethau gwell, sefydlog sy'n cynnig gwerth am arian i denantiaid. Yn fy ymateb i'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy, cyfeiriais at y Fframwaith Rheoleiddiol, y disgwylir iddo gael ei adolygu y flwyddyn nesaf hefyd. Bydd eich mewnbwn i'r adolygiad hwnnw'n hanfodol.

Fel chi, rwyf am weld tenantiaid wrth wraidd y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt – ac i'w lleisiau gael eu clywed yn glir. Yn hyn o beth, roeddwn yn gwerthfawrogi eich adroddiad, Y Pethau Iawn – Clywed Llais Tenantiaid, sydd yn fy marn i'n gwneud awgrymiadau synhwyrol, ymarferol i LCCau wrth ystyried eu gwaith gyda thenantiaid. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn iawn i'r adolygiad o'r fframwaith ystyried p'un a yw Safon Perfformiad 2 yn ddigon cryf a chlir, neu a oes angen categori barnu ar wahân o safbwynt tenantiaid.

Rydym yn rhannu'r un uchelgais y dylai'r sector LCC yng Nghymru fod yn enghraifft o lywodraethu da. Mae dyfarniadau rheoleiddio, wedi'u hategu gan y fframwaith perfformiad, yn awgrymu bod gan gryn dipyn o'r sector drefniadau llywodraethu cyson o ansawdd da ei

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fod yn eu cymhwyso, a'i fod yn sefydlog yn ariannol. Rwyf hefyd yn pryderu am yr enghreifftiau o lywodraethu gwael a welwyd yn ddiweddar. Byddwch yn ymwybodol bod y tîm rheoleiddio yn comisiynu gwaith i ddatblygu'r dull o asesu trefniadau llywodraethu ymhellach gyda'r nod o nodi gwendidau cyn gynted â phosibl er mwyn i Fyrddau allu mynd i'r afael â meysydd pryder yn wirfoddol. Bydd eich sylwadau maes o law am effaith y gwaith hwn o ddiddordeb i mi.

Un o'r meysydd a drafodwyd yn eich adroddiad ac a ystyriwyd gennyf yn fy ymateb i'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy yw 'rheoleiddio meysydd'. Rwy'n credu'n gryf fod tenantiaid tai cymdeithasol yn denantiaid tai cymdeithasol, ni waeth ai LCC neu awdurdod lleol yw eu landlord. Dylent ddisgwyl gwasanaeth o'r un ansawdd uchel sy'n cynnig gwerth am arian a gallant rannu'r un problemau wrth ddwyn eu landlordiaid i gyfrif.

Felly, rwy'n bwriadu comisiynu adolygiad o gwmpas y trefniadau rheoleiddio mewn perthynas â gwasanaethau tenantiaid. Bydd yr adolygiad yn dadansoddi'r fframwaith a'r pwerau deddfwriaethol presennol, y ffordd y cânt eu cyflawni ar hyn o bryd gan y partïon amrywiol, ac yn asesu i ba raddau y gall opsiynau cysoni yn y dyfodol ddiogelu buddiannau pob tenant tai cymdeithasol ymhellach. Fel y crybwyllais yn ystod fy nghyfarfod â Helen a Bob, bydd angen i'r adolygiad hwn hefyd ystyried y goblygiadau i'r tîm Rheoleiddio o ran ei adnoddau i ymgymryd yn effeithiol ag unrhyw ychwanegiad cysylltiedig at ei lwyth gwaith.

Mae eich adroddiad yn cyfeirio sawl gwaith at adnoddau a lleoliad y tîm rheoleiddio (h.y. o fewn Llywodraeth Cymru neu y tu allan iddi). Wrth gwrs, byddai angen ystyried effaith trefniadau rheoleiddio meysydd posibl yn llawn mewn unrhyw gynlluniau ar gyfer adnoddau yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, materion i'r Ysgrifennydd Parhaol, yn hytrach na minnau fel Gweinidog, yw adnoddau'r Gwasanaeth Sifil (niferoedd, graddau a datblygu staff). Byddaf yn deall y caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud ag adnoddau, drwyddi draw, eu hadolygu'n gyson ar yr adeg hon o gyfyngiadau parhaus. Mae'r tîm rheoleiddio yn parhau i gyflawni yn erbyn llwyth gwaith heriol ac mae'n rhaid i hynny barhau pan fydd y ffocws yn ehangu neu'n newid. Rwy'n croesawu eich cefnogaeth o'r tîm wrth i'w fodel gweithredu newydd barhau i gael ei roi ar waith. Yn ddiau, bydd y materion ehangach yn parhau i fod yn rhan o'r ddeialog barhaus.

Yn olaf, bydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ei hun yn newid yn sylweddol dros y misoedd i ddod wrth i gadeirydd ac aelodau newydd gael eu penodi ac wrth i unrhyw effeithiau o argymhellion yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy a'r adolygiad o'r Fframwaith gael eu rhoi ar waith. Hyderaf y byddwch yn parhau i chwarae rôl bwysig mewn cysylltiad â'r Rheoleiddiwr ar yr adeg gyffrous hon sy'n llawn newid a her. Diolch i chi, ac wrth gwrs i Helen White, am eich adroddiad ac am ymdrechion, egni ac ymrwymiad Bwrdd Rheoleiddiol Cymru drwy gydol y flwyddyn.

Yn gywir

**Julie James AC**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon